



# Datganiadau Polisi Trafnidiaeth ar gyfer Dysgwyr 16-19 oed 2007/2008

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## Canllawiau

Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 05/2007  
Dyddiad Cyhoeddi: 1 Mawrth 2007  
Disodlir Cylchlythyr Rhif: 04/2006

# Datganiadau Polisi Trafnidiaeth ar gyfer Dysgwyr 16-19 oed 2007/2008

**Y Gynulleidfa** Awdurdodau Addysg Lleol (AALLau); Sefydliadau Addysg Bellach; ysgolion â chweched dosbarth; Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cynnig darpariaeth Addysg Bellach; darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, gan gynnwys cyflogwyr â myfyrwyr dan hyfforddiant sy'n gorfod teithio i gael hyfforddiant neu i astudio; a Rhwydweithiau 14-19.

Fe'i hanfonwyd hefyd i Awdurdodau Trafnidiaeth, Partneriaethau Pobl Ifanc, Cwmnïau Gyrfa Cymru, Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ac Awdurdodau Esgobaethol er gwybodaeth.

**Golwg gyffredinol** Ceir yn y ddogfen hon arweiniad ar y gofyn sydd ar AALLau a'u partneriaid mewn perthynas â datganiadau ynglŷn â darparu cymorth gyda thrafnidiaeth o'r cartref neu'r gweithle i'r lleoliad addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr 16-19 oed a'r rheini sy'n cwblhau cyrsiau a gychwynnwyd cyn eu pen-blwydd yn 19 oed.

**Camau i'w cymryd** Ceir yn y ddogfen hon gyngor ar sut y dylai AALLau a'u partneriaid ddehongli eu dyletswyddau mewn perthynas â pharatoi datganiadau polisi trafndiaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/08, fel y bo'n ofynnol o dan Adran 509AA Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd). Rhaid bod y datganiad hwn wedi'i baratoi a'i roi ar waith erbyn 31 Mai 2007. Gofynnir i AALLau anfon copïau o'u datganiad at swyddfa berthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y nodir isod, erbyn 31 Mai 2007.

**Gwybodaeth bellach** Dylai ymholiadau ynghylch y cylchlythyr hwn gael eu hanfon at ein timau Datblygu Rhwydwaith Dysgu rhanbarthol, fel a ganlyn:

## **Gogledd Cymru**

Ian Williams  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Busnes Llanelwy  
Llanelwy  
Sir Ddinbych LL17 0LJ  
Rhif ffôn: 01745 538500

### **Canolbarth Cymru**

Annette Jones  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Tŷ Ladywell  
Y Drenewydd  
Powys SY16 1JB  
Rhif ffôn: 01686 622494

### **De-ddwyrain a De-orllewin Cymru**

Robert Joyce  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Tŷ'r Afon  
Heol Bedwas  
Bedwas  
Caerffili CF83 8WT  
Rhif ffôn: 01443 663663

### **Copiau pellach**

Gellir cael copïau ychwanegol o'r canllawiau hyn gan:  
Helen Jones, Yr Is-adran Datblygu Dysgu a Rhwydweithiau,  
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Uned 6 Parc Busnes Llanelwy,  
Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0LJ  
Ffôn: 01745 538500  
E-bost: [Learning.Policy@wales.gsi.gov.uk](mailto:Learning.Policy@wales.gsi.gov.uk)  
Neu o wefan y Cynulliad: [www.learning.wales.gsi.gov.uk](http://www.learning.wales.gsi.gov.uk)

### **Dogfennau Cysylltiedig**

Deddf Addysg 2002  
Deddf Dysgu a Medrau 2000  
Deddf Addysg 1996  
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995  
Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru



## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
Beth yw diben y cylchlythyr hwn?	3
Y Cefndir a'r Gofynion Deddfwriaethol	3-4
Materion Deddfwriaethol a Chyllidol Cysylltiedig	4-5
Paratoi Datganiadau Polisi Trafnidiaeth	5-7
Ystyriaethau Pellach mewn perthynas â Dysgwyr AAA	7-8
Cyhoeddi Datganiadau Polisi Trafnidiaeth	8
Gweithio mewn Partneriaeth	8-10
Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol	11
Cydymffurfio	11
Amserlen	12
Gwybodaeth Bellach	12

## Atodiadau

Atodiad 1 - Rhestr Gyfeirio

Atodiad 2 - Arferion Gorau

## Crynodeb

Mae a wnelo'r arweiniad hwn â dyletswydd Awdurdodau Addysg Lleol a'u partneriaid i gynhyrchu a chyhoeddi datganiadau ynglŷn â'r cymorth a roddir i ddarparu trafndiaeth o'r cartref neu'r gweithle i'r lleoliad addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr 16-19 oed a'r rheini sy'n cwblhau cyrsiau a gychwynwyd cyn eu pen-blwydd yn 19 oed. Disodla'r arweiniad a gyhoeddwyd ar gyfer 2006/07 (Cylchlythyr rhif 04/2006).

Amlinellir yn yr arweiniad hwn:

- yr angen i AALLau ystyried anghenion y rheini sydd am fanteisio ar gyrsiau addysg neu hyfforddiant ôl-16;
- rôl yr AALLau wrth gynhyrchu a chyhoeddi datganiadau trafndiaeth;
- y modd y cyhoeddir y datganiadau a'u hamseriad;
- rôl Rhwydweithiau 14-19 a'u partneriaid wrth gynhyrchu'r datganiadau trafndiaeth;
- dyletswydd cyrff llywodraethu ysgolion a cholegau i gydweithredu ag AALLau a darparu ar eu cyfer unrhyw wybodaeth a fydd yn ofynnol ganddynt, fel y bo'n rhesymol;
- cynnwys y datganiad trafndiaeth.

Mae AALLau yn gyfrifol am sicrhau:

- bod y datganiad polisi yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth;
- bod y datganiad polisi wedi'i gyflwyno'n glir ar ffurf hawdd ei deall heb ddefnyddio 'iaith swyddogol' ddianghenraid.

Gofynnir i AALLau anfon dau gopi o'u datganiad polisi trafndiaeth i'r swyddog cyswllt yn un o swyddfeydd rhanbarthol perthnasol AADGOS a restrir ar flaen y cylchlythyr arweiniad hwn erbyn 31 Mai 2007. Dylai un copi fod mewn fformat electronig, a'r llall ar ffurf copi caled. Yn ogystal, dylid atodi copiâu enghreifftiol o ffurflenni cais ar gyfer darpariaeth trafndiaeth i'r Datganiad Polisi Trafndiaeth.

## **Beth yw diben y cylchlythyr?**

1. Ceir yn y cylchlythyr hwn arweiniad ar y gofynion cyfreithiol sydd ar AALLau a'u partneriaid mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi datganiadau ynglŷn â'r cymorth a gynigir i ddarparu trafndiaeth o'r cartref neu'r gweithle i'r lleoliad addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr 16-19 oed a'r rheini sy'n cwblhau cyrsiau a gychwynwyd cyn eu pen-blwydd yn 19 oed. Dywed y cylchlythyr sut y dylai AALLau a'u partneriaid ddehongli eu dyletswyddau.

## **Y Cefndir a'r Gofynion Deddfwriaethol**

2. O ganlyniad i Ddeddf Addysg 2002 mae'n ofynnol i bartneriaethau o dan arweiniad AALLau gynhyrchu datganiadau polisi trafndiaeth a'u cyhoeddi ar ffurf a ystyrir yn briodol ganddynt. Daeth y dyletswyddau hyn i rym ar 1 Medi 2003 pan ddaeth Adran 199 ac Atodlen 19 o Ddeddf Addysg 2002, a fu'n gyfrifol am gynnwys adrannau 509AA, 509AB a 509AC yn Neddf Addysg 1996, i rym mewn perthynas â Chymru. Yn unol ag adran 509AB (5) o Ddeddf Addysg 1996 mae'n ofynnol bod AALLau yn ystyried yr arweiniad hwn.

3. Rhaid i AALLau gyhoeddi datganiadau polisi trafndiaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol erbyn 31 Mai, ar ôl ymgynghori â'u partneriaid.

4. Mae'n ofynnol i'r AALLau nodi pa drefniadau a fydd yn eu barn hwy yn angenrheidiol er mwyn darparu trafndiaeth, a rhoi cymorth gyda thrafnidiaeth, ar gyfer dysgwyr yn yr ystod oed hon, fel y gall pobl ifanc weld pa gymorth a gwasanaethau trafndiaeth sydd ar gael yn eu hardal. Mae ganddynt hefyd, yn unol ag Adran 509AA(7) o'r Ddeddf, ddyletswydd i wneud y cyfryw drefniadau a nodir yn y datganiadau a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Yn unol ag Adran 509AB(2) o'r Ddeddf, dylai'r trefniadau hyn fod yr un mor ffafriol ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn addysg amser llawn neu hyfforddiant mewn sefydliadau ac eithrio ysgolion a gynhelir gan yr AALL ag ar gyfer disgyblion o'r un oed yn yr ysgolion hynny.

5. Bydd yr awdurdodau lleol yn ymwybodol y bydd Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru greu mesurau ar gyfer trafndiaeth dysgwyr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn debygol o gynnig cyfreithiau newydd i Gymru ar gyfer trafndiaeth teithwyr ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2007. Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud ar ffurf y cynigion hyn na phryd y byddant yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag,

efallai yr hoffai llywodraeth yn y dyfodol gynnig cyfreithiau a fydd yn disodli'r cyfreithiau addysg presennol ar drafnidiaeth i bobl ifanc 16-19 oed. Nes i benderfyniad gael ei wneud ar hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi arweiniad blynyddol ar gyfer datganiadau polisi trafnidiaeth i bobl ifanc 16-19 oed ar sail y gyfraith bresennol. Mae'n debygol y bydd cynigion ar gyfer cyfreithiau newydd yn destun ymgynghoriad ar wahân ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr arweiniad hwn.

## **Materion Deddfwriaethol a Chyllidol Cysylltiedig**

6. Mae'r drafnidiaeth a ddarperir gan AALLau yn ychwanegol at y ffynonellau cymorth sydd eisoes ar gael ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant. Yn unol ag adran 509(1) o Ddeddf Addysg 1996, mae rhwymedigaeth statudol ar AALLau i ddarparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol orfodol (5-16). Er hynny, fel trefniant dewisol, bydd y rhan fwyaf o AALLau hefyd yn darparu trafnidiaeth am ddim i fyfyrwyr y chweched dosbarth. Yn unol ag adran 34 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y pŵer i ddarparu adnoddau ariannol i, ymhlith eraill, bobl sy'n darparu neu'n bwriadu darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu nwyddau neu wasanaethau mewn cysylltiad ag addysg neu hyfforddiant o'r fath a hefyd i bobl sy'n derbyn neu'n bwriadu derbyn addysg neu hyfforddiant o'r fath. Mewn perthynas ag Addysg Bellach, gall y Colegau Addysg Bellach, yn ôl eu disgrisiwn eu hunain, ddarparu Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn er mwyn cynorthwyo dysgwyr gyda'u teithio. Ar gyfer lleoliadau dysgu seiliedig ar waith, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i gynorthwyo â chostau teithio y rheini nad ydynt mewn gwaith sydd ar gyrsiau dysgu seiliedig ar waith. Gall cyrff llywodraethu Colegau Addysg Bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, yn ôl eu disgrisiwn eu hunain, ddefnyddio rhywfaint o'u hadnoddau i ddarparu trafnidiaeth neu gymorth gyda thrafnidiaeth i'w dysgwyr.

7. Bydd AALLau yn ymwybodol y cafodd y pwerau a arferai gael eu gweithredu gan y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa) eu trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2006. Mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) bellach yn arfer y swyddogaethau hyn ac yn parhau i weithredu polisiau ac arferion ELWa o ran cynllunio ac ariannu darpariaeth ddysgu ôl-16 yn ystod 2007/08.



8. Nid yw cyllid AADGOS ar gyfer sicrhau darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion yn cynnwys elfen drafnidiaeth. Mae cyllid er mwyn darparu trafndiaeth yn parhau'n gyfrifoldeb i grantiau cynnal refeniw yr AALLau. Ni ddylai AALLau felly ystyried Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn, neu unrhyw arian neu gymorth arall a ddarperir gan Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sefydliadau Addysg Bellach, neu unrhyw un arall, fel arian yn lle unrhyw adnoddau a gadwyd gan AALLau ar ôl i'r cyfrifoldeb am gyllido darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion gael ei drosglwyddo i ELWa yn 2002 ac wedyn i AADGOS yn 2006.

9. Bydd dysgwyr 16 neu 17 oed hefyd am wybod am eu hawl i gael amser rhydd i astudio neu hyfforddi yn unol ag Adran 63A o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 a Rheoliadau Amser Rhydd i Astudio neu Hyfforddi 2001 (Offeryn Statudol 2001 Rhif 2801). Gellir gweld copi o'r Rheoliadau ar wefan [www.legislation.hmsso.gov.uk/si/si2001/20012801.htm](http://www.legislation.hmsso.gov.uk/si/si2001/20012801.htm).

## **Paratoi Datganiadau Polisi Trafnidiaeth**

10. Mae Datganiadau Polisi Trafnidiaeth yn ddogfennau ffurfiol, ond dylent gael eu hysgrifennu mewn modd sy'n llawn gwybodaeth ac o fudd i ddysgwyr. Ceir yn Atodiad 1 restr gyfeirio a hefyd y camau y dylai'r AALLau eu hystyried wrth baratoi Datganiad. Mewn ymateb i geisiadau gan AALLau, ceir yn Atodiad 2 enghreifftiau o arferion da a godwyd o Ddatganiadau Polisi Trafnidiaeth AALLau. Nid yw'n fwriad i'r atodiadau hyn gael eu defnyddio fel templed caeth ond, yn hytrach, fel cyfrwng i helpu â'r broses o ddatblygu Datganiadau a fydd yn addas i'r diben.

11. Dylai AALLau gynnwys datganiad i ddangos sut a chyda phwy maent wedi ymgynghori ar ddatblygu'u Datganiadau Polisi Trafnidiaeth. Mae mwy o fanylion am ystod y partneriaethau a ddylai fod yn gysylltiedig yn y gwaith o ddatblygu Datganiadau Polisi Trafnidiaeth yn y cyngor a roddir ym mharagraffau 18-24 yr Arweiniad hwn a'r rhestr gyfeirio yn Atodiad 1.

12. Dylai Datganiadau Polisi Trafnidiaeth:

- fod yn ddogfennau annibynnol a baratowyd yn benodol ar gyfer dysgwyr 16-19 oed;
- amlinellu'r drafnidiaeth a ddarperir ar gyfer dysgwyr 16-19 oed yn ardal yr AALL, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi cyrraedd eu pen blwydd yn 19 oed ond sydd ar gwrs a ddechreuwyd cyn iddynt gyrraedd yr oed hwnnw;

- cynnwys manylion am yr holl drafnidiaeth leol a ddarperir neu sydd ar gael gan AALLau a'u partneriaid;
- disgrifio unrhyw gymorth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr mewn cysylltiad ag anghenion trafnidiaeth, a ddarperir gan yr AALL ac o ffynonellau eraill;
- manylion ynglŷn â sut a phryd i wneud cais am gymorth gyda thrafnidiaeth, gan gynnwys enghraifft o ffurflen gais fel atodiad i'r datganiad;
- cynnwys mapiau syml yn dangos y prif ardaloedd lle mae'r boblogaeth, y sefydliadau dysgu ynghyd â'r canlynol: llwybrau beiciau, cerdded, llwybrau a gwasanaethau bysys a threnau sy'n gwasanaethu colegau lleol, chweched dosbarth ysgolion a darparwyr sy'n cynnwys elfennau sylweddol o'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith ymaith o'r gwaith, neu bwyntiau cyswllt lle gellir cael gafael ar yr wybodaeth hon;
- cynnwys gwybodaeth am daliadau ac unrhyw gonsesiynau, gostyngiadau ac ati a fydd yn gymwys iddynt, neu bwyntiau cyswllt lle gellir cael gafael ar yr wybodaeth hon. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos dysgwyr nad ydynt yn gymwys am drafnidiaeth am ddim neu drafnidiaeth â chymhorthdal o dan drefniadau'r AALL. Dylid nodi hyn hefyd lle nad oes disgownt neu gonsesiwn ar gael;
- manylion ynghylch pryd ceir defnyddio pasys consesiwn;
- cynnwys manylion cyswllt ar gyfer dysgwyr er mwyn iddynt gael mwy o wybodaeth neu docynnau teithio (ee Traveline Cymru 0870 6082608);
- lle nad oes unrhyw wasanaethau neu lle bo bylchau mewn gwasanaethau, nodi unrhyw gymorth a fydd ar gael i helpu dysgwyr gyda'u teithio. Er enghraifft, prynu neu sybsideiddio gwasanaethau bws mini, Galw'r Gyrrwr, gweithio gyda darparwyr Trafnidiaeth Gymunedol neu ddarparu beiciau ac ati.

### 13. Wrth baratoi Datganiad dylai AALLau ystyried:

- anghenion dysgwyr na fyddent fel arall yn medru manteisio ar gyrsiau addysg neu hyfforddiant ôl-16 a chwblhau cyrsiau o'r fath heb fod trafnidiaeth yn cael ei darparu ar eu cyfer;
- yr angen i ddarparu ar gyfer dysgwyr gyfleoedd rhesymol i ddewis rhwng sefydliadau a chaniatáu i ddysgwyr deithio ar draws ffiniau AALL lle nad yw'r cyfleoedd dysgu ar gael yn lleol, ee darpariaeth trafnidiaeth arbenigol;
- hyd diwrnod y dysgwr. Mae cyrsiau galwedigaethol a lleoliadau

dan hyfforddiant yn aml yn ymestyn y tu hwnt i ddiwrnod ysgol traddodiadol. Dylai datganiadau polisi trafndiaeth ystyried anghenion y myfyrwyr/hyfforddeion hynny sy'n teithio y tu allan i oriau brig teithwyr;

- costau teithio yn erbyn y dewisiadau eraill sydd ar gael ac sy'n briodol (ee darpariaeth breswyl neu brynu beiciau ac ati);
- hyd y siwrnai, y llwybr a hyblygrwydd y teithio a fydd yn berthnasol i'r cwrs;
- dewisiadau mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael;
- dewisiadau crefyddol mewn perthynas â'r ddarpariaeth enwadol sydd ar gael.

14. Yn gyffredinol, dylai dysgwyr dderbyn cymorth a fydd yn briodol i'w hamgylchiadau ariannol, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael tuag at roi cymorth ar gyfer costau trafndiaeth. Lle aseswyd bod angen cymorth ar ddysgwyr i'w galluogi i fanteisio ar gyrsiau neu gwblhau eu cyrsiau, gellir ei ddarparu drwy gyfrwng gostyngiadau, cymorthdaliadau, cardiau neu docynnau teithio neu arian parod. Er mwyn defnyddio'r adnoddau yn y dull gorau a thecaf, dylai AALLau ystyried a fyddai mabwysiadu polisi codi tâl yn briodol. Gall unrhyw le gwag ar y gwasanaethau hyn gael eu defnyddio gan ddysgwyr eraill neu'r cyhoedd a gellid codi tâl ar gyfradd a fydd yn briodol yn nhyb yr AALL.

## **Ystyriaethau Pellach mewn perthynas â Dysgwyr AAA**

15. Rhaid i Ddatganiadau Polisi Trafndiaeth nodi pa drefniadau trafndiaeth sydd ar gael ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu<sup>1</sup>. Dylai'r trefniadau hyn fod yr un mor ffafriol ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant mewn sefydliadau ac eithrio ysgolion a gynhelir gan yr AALL ag ar gyfer disgyblion o'r un oed yn yr ysgolion hynny, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran cyfle/canlyniad. Awgryma arferion da y dylai AALLau a'u partneriaid ddarparu cymorth gyda thrafndiaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA hyd nes y byddant yn 21 oed o leiaf ac, yn ddelfrydol, hyd nes y byddant yn 25 oed lle bo modd.

16. Yn ogystal â hynny, lle bo gan blentyn ddatganiad AAA,

<sup>1</sup> Ceir yn Adran 1 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabled 1995 ddiffiniad o berson sydd ag anabled a cheir yn adran 13 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ddiffiniad o berson sydd ag anhawster dysgu. Dylai'r anghenion trafndiaeth gael eu hasesu, fel rheol, gan yr AALL. Byddai hyn yn cynnwys asesiad o'r math mwyaf priodol o drafndiaeth, yr angen am gyfarpar arbenigol a'r angen am hebryngwyr.

gall anghenion trafndiaeth y plentyn hwnnw, o dan amgylchiadau eithriadol, gael eu nodi yn Rhan 6 o'r datganiad AAA o dan Ddarpariaeth Anaddysgol. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi i'r rhiant yr hawl i ddisgwyl y darperir trafndiaeth fel y nodwyd yn y datganiad AAA, cyn belled ag y bo'r plentyn yn dal i dderbyn addysg a gynhelir gan yr AALL. Awgryma arferion da hefyd y dylai AALLau a'u partneriaid barhau i ystyried anghenion dysgwyr ar ôl i'w datganiad AAA ddod i ben. Am ragor o fanylion ynglŷn â hyn a materion eraill sy'n gysylltiedig ag Anghenion Addysgol Arbennig, gweler Cod Ymarfer AAA Cymru.

## **Cyhoeddi Datganiadau Polisi Trafndiaeth**

17. Bydd AALLau am ystyried pa d dulliau a fydd orau i'w defnyddio wrth gyhoeddi'r datganiadau er mwyn diwallu anghenion y gynulleidfa a gwneud y trefniadau priodol. Yn y Datganiad, dylid cynnwys manylion o sut bydd y Datganiadau Polisi Trafndiaeth yn cael eu cyhoeddi a'u darparu i randdeiliaid.

18. Bydd cyhoeddi ar adran berthnasol gwefan yr AALL yn aml yn ffordd briodol o ddarparu'r datganiadau (gweler adran 6 y rhestr gyfeirio yn atodiad 1). Os bydd hyn yn digwydd, gofynnir i AALLau ddarparu manylion penodol y ddolen wrth gyflwyno'u Datganiadau Polisi Trafndiaeth i Swyddfa Ranbarthol briodol AADGOS.

19. Dylai'r AALL sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn derbyn copïau o'i Ddatganiad Polisi. Yn ogystal, rhaid iddo anfon y Datganiad cyhoeddedig i Lywodraeth y Cynulliad ar ddyddiad ei gyhoeddi sef 31 Mai 2007 neu cyn gynted ag y bo modd wedi hynny. Mae manylion cyswllt Swyddfeydd Rhanbarthol AADGOS ar flaen yr arweiniad hwn at y diben hwn. Hysbysir AALLau bod Timau Rhanbarthol AADGOS yn fwy na bodlon roi sylwadau ar ddatganiadau drafft a geir cyn 31 Mai 2007 er mwyn darparu cymorth ar gyfer dehongli'r arweiniad.

## **Gweithio mewn Partneriaeth**

20. AALLau sy'n gyfrifol am baratoi Datganiadau Polisi Trafndiaeth a'u cyhoeddi ond mae'n hollbwysig bod AALLau yn gweithio gyda phartneriaid wrth baratoi'r datganiadau ac unrhyw newidiadau

pellach y bwriedir eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 19/95 ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn cynnig arweiniad ar arferion da ar gyfer AALLau petaent am newid eu polisi ar ddarparu trafndiaeth<sup>2</sup>. Mae cydweithredu'n hanfodol i gyflawni nodau'r Ddeddf, i sicrhau cymorth tecach, mwy effeithiol ar gyfer dysgwyr. Ymhlith partneriaid AALLau fydd Sefydliadau Addysg Bellach, Rhwydweithiau 14-19, ysgolion â dosbarthiadau chwech a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (gweler adran 1 Atodiad 1). Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn fodd bynnag.

21. Dylai'r AALLau sicrhau bod y Rhwydwaith 14-19 perthnasol yn rhan o'r broses o ddatblygu'r datganiad. Mae Rhwydweithiau 14-19 yn grwpiau o sefydliadau strategol, darparwyr dysgu a dysgwyr mewn awdurdodau lleol. Dylai'r datganiad ategu dull strategol a chydweithredol y Rhwydwaith 14-19 lleol ar gyfer sicrhau bod dysgwyr yn gallu dilyn pob un o chwe elfen Llwybrau Dysgu rhwng 14 ac 19 oed, sef Llwybrau Dysgu Unigol, dewis ehangach a hyblygrwydd, craidd dysgu, anogwr dysgu, cymorth personol a chynghor ac arweiniad gyrfaoedd. Disgwylir i leoliadau dysgu unigol gydweithredu i sicrhau ystod eang a chytbwys o gyfleoedd, lle gall dysgwyr ddatblygu llwybr dysgu cytbwys sy'n bodloni'u hanghenion unigol. Dylai'r datganiad gefnogi atebion dyfeisgar i drefniadau trafndiaeth sy'n sicrhau y gall dysgwyr ddilyn dysgu priodol i fodloni'u hanghenion a'u dyheadau.

22. Dylai AALLau hefyd ymgynghori â phob ysgol, coleg Addysg Bellach, darparwr dysgu seiliedig ar waith ac AALLau cyfagos. Mae ymgysylltu'n effeithiol ag AALLau cyfagos a'r Rhwydweithiau 14-19 perthnasol yn bwysig wrth wneud cynlluniau priodol ar draws ffiniau.

23. Bydd AALLau hefyd am ystyried unrhyw brosiectau arbennig y byddant hwy neu randdeiliaid yn ymgymryd â hwy er mwyn cynnwys dysgwyr 16-19 oed yn y broses o ddysgu drwy weithgareddau cymunedol ac, yn ogystal â hynny, anghenion dysgwyr o'r fath o ran trafndiaeth pan fyddant yn llunio eu datganiadau.

24. Wrth lunio datganiadau, dylai AALLau ystyried trefniadau cymorth

---

<sup>2</sup> Yn ôl Cylchlythyr 19/95 y Swyddfa Gymreig, os bydd AALLau am newid eu polisi trafndiaeth, dylent ymgynghori fel y bo'n briodol ag ysgolion a rhieni disgyblion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan unrhyw gynigion i dynnu'n ôl y ddarpariaeth neu leihau'r ddarpariaeth o dan y polisi hwnnw cyn dod i benderfyniad. Mae hefyd yn ddymunol i awdurdodau newid eu trefniadau trafndiaeth ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn unig ac i'r polisiâu diwygiedig fod yn berthnasol i ddisgyblion wrth iddynt newid ysgol yn unig. Dywed yr arweiniad yn glir hefyd na fyddai'n ddymunol i bolisiâu diwygiedig fod yn berthnasol i ddisgyblion newydd pe na bai'r rhieni'n cael gwybod am y polisiâu diwygiedig ar yr adeg y cafodd eu cais ei dderbyn.

a pholisïau a roddwyd ar waith gan AADGOS. Dylai AALLau nodi y bydd AADGOS yn parhau i adeiladu ar ddull gweithredu ELWa o ran cynllunio darpariaeth a chreu sector ôl-16 mwy effeithiol ac effeithlon. Dylai AALLau barhau i drafod y materion hyn gyda'u Swyddfa Ranbarthol AADGOS.

25. Mae'n ddyletswydd ar gyrff llywodraethu Ysgolion a Cholegau i gydweithredu ag AALLau ac i roi iddynt unrhyw wybodaeth a fydd yn ofynnol yn rhesymol ganddynt. Anogir darparwyr dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys cyflogwyr sy'n cynnig lleoliadau dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau, i wneud yr un fath. Dylai Sefydliadau Addysg Bellach barhau i ddarparu Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn i gynorthwyo dysgwyr â'u trefniadau teithio, naill ai yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti. Gall y cronfeydd hyn gael eu defnyddio i gyllido trefniadau cymorth mewn bloc neu yn unigol. Y sefydliadau Addysg Bellach unigol, ar ôl ymgynghori ag AADGOS, a fydd yn gyfrifol am benderfynu faint o gyllid ddylai gael ei ddefnyddio at y pwrpas hwn. Nid yw'n fwriad i'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ddisodli, na sybsideiddio, cymorth cyllidol sydd eisoes ar gael gan AALLau. Rhaid i sefydliadau Addysg Bellach sicrhau bod digon o arian ar ôl yn y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ar gyfer dysgwyr y bydd angen cymorth arnynt gyda chostau eraill megis llyfrau a chyfarpar ac ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion sydd y tu allan i gwmpas cyllid AALLau. Mae arian ar gael gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer myfyrwyr Addysg Bellach sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch y mae'n bosibl y bydd angen cymorth arnynt gyda'u costau trafndiaeth neu gostau eraill.

26. Dylai bodolaeth datganiadau polisi trafndiaeth a'r broses o'u llunio gynorthwyo i gydnabod ac ymdrin â'r gwahaniaeth o ran cynnig cymhorthdal neu godi tâl rhwng dysgwyr mewn gwahanol leoliadau. I'r graddau y gellir canfod neu gytuno ar ddulliau cyffredin dylai hefyd fod yn bosibl dod o hyd i arbedion o ran effeithlonrwydd a manteision o ran yr amgylchedd drwy greu'r cyfle i rannu contractau gyda gweithredwyr trafndiaeth a thrwy ddileu dyblygu darpariaeth gan gynnwys defnyddio llefydd gwag ar wasanaethau trafndiaeth ysgolion ar gyfer disgyblion o oedran ysgol orfodol.

## Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol

27. Rhaid i'r cymorth a'r gwasanaethau trafndiaeth ar gyfer dysgwyr 16-19 oed gael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Disgwylir cylch nesaf y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ym mis Mawrth 2008. Dylai AALLau sicrhau eu bod yn cysylltu â chydweithwyr yn adran drafndiaeth yr awdurdod lleol a'r Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol fel y gellir ystyried:

- cynnwys ceisiadau gan bartneriaethau ar gyfer trafndiaeth i ddysgwyr yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol nesaf;
- sicrhau bod y datganiad polisi ar gyfer gwasanaethau trafndiaeth a chymorth ar gyfer dysgwyr yn rhan o'r cynllun cyfan pan gaiff ei adolygu y tro nesaf.

## Cydymffurfio

28. Bydd angen i AALLau sicrhau bod eu datganiadau polisi yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'u bod, wrth baratoi'r datganiadau, wedi ystyried hyn ac unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol. Dylai AALLau ymgynghori â'u cyngorwyr cyfreithiol eu hunain am gyngor ar sut i gyflawni eu hymrwymadau cyfreithiol. Lle bydd AALLau yn methu â chydymffurfio, gallent wynebu her gyfreithiol gan y dysgwyr neu eu rhieni. Yn ogystal â hynny, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddyd i AALLau, yn unol â'r pwerau o dan adran 509AA(9) o Ddeddf Addysg 1996, i wneud trefniadau i ddarparu trafndiaeth neu gymorth ariannol tuag at drafndiaeth nad ydynt wedi'u nodi yn y datganiad.

## 29. Amserlen

1 Mawrth 2007	Llywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi'r arweiniad i bartneriaethau ar gyfer 2007/08.
Mawrth-Mai 2007	Timau Rhanbarthol AADGOS ar gael i roi cymorth i AALLau ddehongli'r arweiniad.
31 Mai 2007	AALLau i gyhoeddi datganiadau polisi trafndiaeth a'u dosbarthu i bartneriaid. Dylid cyflwyno datganiadau ar ffurf electronig ac ar ffurf copi caled i'r Swyddfa Ranbarthol AADGOS briodol at ddibenion monitro.

### Gwybodaeth Bellach

30. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch neu eglurhad ynglŷn ag unrhyw fater yn y cylchlythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddfa Ranbarthol AADGOS briodol.



### **1. Ymgynghori â phartneriaid.**

Wrth baratoi Datganiad Polisi Trafnidiaeth, rhaid i AALLau ymgynghori â phartneriaid, a ddylai gynnwys:

- a. Cydweithwyr mewn Awdurdod Unedol, hy yr Adran Drafndiaeth, yr Adran Addysg ac ati;
- b. Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol;
- c. Ysgolion â dosbarthiadau chwech;
- d. Sefydliadau Addysg Bellach;
- e. Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cynnig Darpariaeth Addysg Bellach;
- f. Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith\*;
- g. Rhwydweithiau 14-19;
- h. Adrannau Addysg Esgobaethol;
- i. Partneriaethau Pobl Ifanc;

\* *Gellir cael manylion darparwyr dysgu seiliedig ar waith oddi wrth Dimau Rhanbarthol AADGOS*

### **Dylai Datganiadau gynnwys y canlynol:**

#### **2. Darpariaeth o ran Trafnidiaeth:**

##### **i. Cyffredinol**

- a. Datganiad Polisi Trafnidiaeth yr AALL ar gyfer dysgwyr 16-19 oed;
- b. Manylion am y ddarpariaeth o ran trafndiaeth sydd ar gael o ffynonellau eraill ee y cysylltiadau trafndiaeth lleol mwyaf amlwg a/neu fysiau am ddim a ddarperir gan sefydliadau Addysg Bellach ac ati;
- c. Manylion ynglŷn â'r meini prawf o ran pwy sy'n gymwys am docynnau bws am ddim ee a fydd prawf modd ar gyfer dysgwyr neu a fydd yn ofynnol eu bod yn derbyn budd-daliadau, ac a roddir tocynnau neu gardiau teithio iddynt;
- d. Manylion am unrhyw ffynonellau ariannol eraill o gymorth sydd ar gael a phwy fydd yn gymwys am y cymorth;

## 2. Darpariaeth o ran Trafnidiaeth (Parhad):

- e. Manylion am y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys am drafndiaeth am ddim megis consesiynau, gostyngiadau neu gymorthdaliadau;
- f. Manylion ynglŷn â sut a phryd i wneud cais am gymorth gyda thrafnidiaeth, gan gynnwys enghraifft o ffurflen gais;
- g. Manylion am y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr a fydd yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 19 oed tra byddant yn dilyn cwrs;
- h. Manylion am gymorth gyda thrafnidiaeth y tu allan i ardal yr AALL;
- i. Manylion am gymorth i ddysgwyr sy'n gorfod mynd i leoliad y tu hwnt i'r pellter teithio dyddiol ac y mae angen iddynt aros dros nos.

### ii. Ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig

- a. Manylion am drefniadau cymorth/trafnidiaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA);
- b. Manylion am hyfforddiant ychwanegol sy'n cael ei ddarparu/sydd ar gael i gynorthwyo dysgwyr sydd â phroblemau gyda thrafnidiaeth ee darparu hyfforddiant ar symudedd/annibyniaeth.

## 3. Taliadau:

- a. Manylion am unrhyw daliadau consesiynol a phwy sy'n eu darparu;
- b. Manylion am unrhyw ostyngiadau a phwy sy'n eu darparu;
- c. Manylion am gymorthdaliadau a phwy sy'n eu darparu;
- d. Manylion am gardiau teithio a phwy sy'n eu darparu;
- e. Manylion am unrhyw gostau teithio i ddysgwyr ac i bwy y maent yn daladwy;
- f. Manylion am yr adegau y gall dysgwyr ddefnyddio tocynnau teithio a chael consesiynau ar y tâl.

## 4. Amserau teithio:

- a. Rhestr darparwyr trafndiaeth yn lleol (gan gynnwys amserau trenau lle bo'n berthnasol i'r dysgwr) neu fan cyswllt lle gellir cael yr wybodaeth hon;
- b. Mapiau llwybrau bysiau neu fan cyswllt lle gellir cael yr wybodaeth hon.

## **5. Cysylltiadau**

Dylai Datganiadau gynnwys manylion am yr holl bwyntiau cyswllt ar gyfer dysgwyr sy'n chwilio am gymorth gyda thrafnidiaeth (gan gynnwys cyfeiriadau gwefannau ac e-byst):

- a. Cysylltiadau o fewn yr AALL;
- b. Cysylltiadau o fewn y Colegau;
- c. Cysylltiadau o ran Trafnidiaeth Leol;
- d. Traveline Cymru.

## **6. Dylai AALLau ystyried hefyd sut i gyhoeddi datganiadau a sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol ohonynt. Awgryma arferion da:**

- a. Rhyngrwyd - ee Gwefan yr AALL a/neu gysylltiadau yn y chwilotwr neu gysylltiadau mewn cylchlythyrau, ffurflenni cais electronig ac ati;
- b. Ysgolion â dosbarthiadau chwech (copïau electronig a chopïau caled);
- c. Sefydliadau Addysg Bellach (copïau electronig a chopïau caled);
- d. Sefydliadau Addysg Uwch sy'n darparu Cyrsiau Addysg Bellach (copïau electronig a chopïau caled);
- e. Swyddfeydd gwybodaeth am drafnidiaeth (copïau caled).

Arweiniad ar Ddatganiadau  
Polisi Trafnidiaeth ar  
gyfer Dysgwyr 16-19 oed  
2007/2008

Mawrth 2007

Cylchlythyr: 05/2007

### ARWEINIAD YNGLŶN AG ARFERION DA

Mae'r enghreifftiau a welir yn yr atodiad hwn yn awgrymiadau ar gyfer arferion da a godwyd o Ddatganiadau Polisi Trafnidiaeth AALLau. Fe'u cynigir fel awgrymiadau ond nid yw'n fwriad iddynt gael eu defnyddio air-am-air.

#### A. Iaith:

Defnyddiwch iaith a fydd yn addas i'r dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid. Peidiwch â defnyddio jargon cyfreithiol.

*Enghraifft o arfer da:*

*Bydd trafndiaeth ar gael i fyfyrwyr amser llawn 16-19 oed sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol uwchradd neu safle'r Sefydliad Addysg Bellach agosaf o fewn [enw'r awdurdod] sy'n cynnig addysg ôl-16. Ni chaiff trafndiaeth ei darparu fel arfer o'r cartref ond yn hytrach o safle casglu a gymeradwywyd. Ni chaiff trafndiaeth ar gyfer cyrsiau Safon Uwch/UG/TGAU ei darparu fel rheol ar gyfer dysgwyr sy'n teithio y tu allan i [enw'r awdurdod] (ond gweler Adran [Y] isod am fwy o wybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr yn teithio y tu allan i [enw'r awdurdod]).*

#### B. Diwyg:

Dylai'r datganiadau gael eu llunio mewn modd lle bydd yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn syml ac yn glir er mwyn i'r dysgwyr a/neu eu rhieni/gwarcheidwaid ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol yn hawdd. Dylid defnyddio penawdau ac is-benawdau a hefyd, o bosibl, gwestiynau wedi'u geirio o safbwynt y dysgwyr.

#### C. Cynnwys:

Dylai'r datganiadau nodi'n glir pa drafndiaeth sydd ar gael i ddysgwyr. Er enghraifft, wrth amlinellu'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig, ni ddylai AALLau wneud datganiadau megis '*bydd trafndiaeth briodol neu addas yn cael ei darparu ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig*' a dylid ceisio nodi manylion neu roi manylion am bwyntiau cyswllt perthnasol am ragor o wybodaeth.

*Enghraifft o arfer da:*

*Mae'n bosibl y gellir darparu trafndiaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr sy'n dioddef o gyflwr meddygol difrifol er nad ydynt yn bodloni'r meini prawf o ran pellter neu addysg. Rhaid i bob cais gael ei gefnogi gan dystiolaeth feddygol a chaiff ei adolygu gan swyddog meddygol yr ysgolion a/neu'r Prif Swyddog Addysg.*

*Wrth benderfynu ar y math o drafndiaeth fydd ei angen, bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol:-*

*yr angen am drafndiaeth arbenigol;*

*anghenion addysgol arbennig y disgybl neu fyfyrwr fel y'u diffiniwyd yn eu datganiad.*

Dylai datganiadau gynnwys manylion am unrhyw gymorth arall sydd ar gael i ddysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig, megis hyfforddiant ar symudedd/annibyniaeth neu'r angen am hebryngwr. Mewn achosion lle nad yw AALLau yn darparu'r cymorth yn uniongyrchol, dylai Datganiadau Polisi Trafndiaeth gynnwys, er hynny, wybodaeth am ffynonellau eraill o gymorth.

*Enghraifft o arfer da:*

*Gall hebryngwr gael ei ddarparu gan AALL ar gyfer disgyblion â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Darperir hebryngwyr ar ôl i'r swyddogion perthnasol ystyried anghenion unigol y disgyblion neu'r grŵp o ddisgyblion a natur y drafndiaeth sydd ar gael. Cysylltwch â xxx ar yyy yyyy am fanylion ynglŷn â phwy sy'n gymwys a sut i wneud cais.*

#### **D. Amserlenni Bysiau a Mapiau o'r Llwybrau**

Dylai'r datganiadau gynnwys neu ddarparu arweiniad clir o ran ble gellir dod o hyd i wybodaeth:

- colegau perthnasol a'u lleoliad fel bod gan y dysgwyr fwy o wybodaeth wrth ddewis coleg;
- amserlenni bysiau;
- mapiau llwybrau bysiau.

Dylai amserlenni/rhestrau/mapiau fod ar gael ar gyfer pawb sy'n darparu trafndiaeth i bob sefydliad sy'n cynnig cyrsiau dysgu pellach o fewn ardal yr AALL, hy:

- ysgolion â dosbarthiadau chwech;
- Sefydliadau Addysg Bellach;
- Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cynnig hyfforddiant addysg bellach;
- darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

Lle nad yw amserlenni a mapiau llwybrau bysiau ar gael ond gan y sefydliad(au) dan sylw, dylai AALLau gynnwys manylion cyswllt ar gyfer dysgwyr yn eu Datganiadau Polisi Trafndiaeth.

*Enghraifft o arfer da:*

*[Enw a chyfeiriad Coleg]*

*Fe'i lleolir yng nghanol tref [XXXX]. Mae yno [Z] campws, un ar [d] Ffordd y Parc yng nghanol [X] ac un arall hanner milltir i ffwrdd ar Ffordd [E] (a ddangosir ar y map isod) lle mae'r cyrsiau [Peirianeg ac Adeiladu]. Mae gan y Coleg hefyd ryw 13 o ganolfannau allanol, nifer ohonynt mewn ysgolion lleol, sy'n cynnig rhaglenni yn ystod y dydd a chysiau nos [rhowch fanylion cyswllt er mwyn cael mwy o wybodaeth am y rhaglenni hyn].*

*Mae yna rwydwaith da o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ac amserlenni rheolaidd a chyson wrth ymyl yr orsaf fysiau fodern ar Stryd [K] - prin bum munud ar droed o'r coleg.*

*Am fanylion am y gwasanaethau hyn cysylltwch â Gwasanaeth Bysiau [S] ar ☎ [rhowch y rhif] rhwng 0845 a 1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 0845 a 1300 ar ddydd Sadwrn], gwefan - [rhowch y cyswllt i'r wefan]. Fel arall, gall Traveline Cymru roi gwybodaeth ddwyieithog i chi am wasanaethau bysys a threnau lleol a chenedlaethol, ☎ ffoniwch 0870 608 2 608 rhwng 0700 a 2200 bob dydd (ac eithrio dydd Nadolig) - gwefan - [www.traveline.org.uk](http://www.traveline.org.uk)*

*Am fwy o wybodaeth am gyrsiau, trafnidiaeth a manylion cyffredinol cysylltwch â'r canlynol:-*

<i>Rhif ffôn</i>	<i>[rhowch y rhif ffôn]</i>
<i>Ffôn testun</i>	<i>[rhowch y rhif ffôn]</i>
<i>Ffacs</i>	<i>[rhowch y rhif ffôn]</i>
<i>Gwefan</i>	<i>[rhowch y wefan]</i>
<i>E-bost</i>	<i>[rhowch y cyfeiriad e-bost]</i>



**Amserlen Bysiau Enghreifftiol:  
Llwybr 621**

**Ysgol Gyfun Olchfa o Murton, Bishopston,  
Pennard a'r Three Crosses**

**Cwmni:** Airport Express/Let's Go Travel  
Uned 1, Canolfan Aztec  
Parc Diwydiannol Gorllewin Abertawe  
Fforestfach  
ABERTAWA SA5 4DJ

**Rhif ffôn:** 01792 585400

**Nifer y seddau:** 29 seats

**Amserlen y Bore**

Murton, Copley Lodge	0748
Murton, Swyddfa'r Post	0750
Bishopston, Valley Hotel	0754
Kittle, Beaufort Arms	0756
Clogwyni Pennard	0802
Ysgol Gynradd Pennard	0805
Eglwys Pennard	0807
Tirmynydd Road, Three Crosses	0815
Three Crosses (Joiners Arms)	0818
Dunvant Road (Fferm Killan Fawr)	0821
Ysgol Gyfun Olchfa, Aneurin Way	0835

**Amserlen y Prynawn**

Ysgol Gyfun Olchfa, Aneurin Way	1540
Murton, Copley Lodge	1632

**Llwybr Penodol**

Mayals Road (Cyffordd Copley Lodge), Murton Green, Oldway, Pyle Road, Bishopston Road, Northway, Pennard Road, Southgate Road, Pennard Cliffs, Southgate Road, Pennard Road, Vennaway Lane, A4118, B4271, Tirmynydd Road, Joiners Road, Dunvant Road, Killan Road, Dunvant Road, Goetre Fawr Road, Gower Road, (PM Aneurin Way, Parkway, Gower Road), Ysgol Gyfun Olchfa.

**Cyfarwyddiadau Arbennig**

Stopio wrth bob arhosfan a phwynt casglu penodedig cyn belled â Dunvant Road (Fferm Killan Fawr).

**Rhaid gwirio Tocynnau Bws ar gyfer pob siwrnai.**


Arweiniad ar Ddatganiadau  
Polisi Trafnidiaeth ar  
gyfer Dysgwyr 16-19 oed  
2007/2008

Mawrth 2007

Cylchlythyr: 05/2007

## Map Enghreifftiol ar gyfer Llwybr Bws

Rhwydwaith Trafnidiaeth Presennol Coleg Iâl



Arweiniad ar Ddatganiadau  
Polisi Trafnidiaeth ar  
gyfer Dysgwyr 16-19 oed  
2007/2008

Mawrth 2007

Cylchlythyr: 05/2007